**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# CYLLID LLYWODRAETH LEOL: Y CYSYNIAD O ARDRETH FUSNES LEOL A CHANFYDDIADAU SY'N DOD I'R AMLWG O'R ADOLYGIAD AILBRISIO

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gynigion i roi ardreth fusnes leol atodol ar waith, ac ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ynghylch adolygiad ailbrisio'r DETR.

## Crynodeb

2. Yn dilyn Papurau Gwyn Moderneiddio Llywodraeth Leol ym 1998 ar gyfer Cymru a Lloegr, mae swyddogion y DETR a'r Cynulliad wedi bod yn trafod gyda chymdeithasau llywodraeth leol a'r prif gyrff busnes ar sut orau i roi cynigion ar waith ar gyfer ardreth fusnes leol atodol a chymorth ardrethi ar gyfer busnesau bach. Bydd cynigion manwl ym Mhapur Gwyrdd mwy cynhwysfawr y DETR ar Gyllid Llywodraeth Leol sy'n ymdrin ag ystod eang o faterion am gyllid llywodraeth leol.

3. Mae swyddogion y DETR a'r Cynulliad wrthi'n adolygu'r mecanweithiau cyfredol ar gyfer ailbrisio eiddo busnesau. Unwaith eto, bydd unrhyw gynigion sy'n deillio o'r adolygiad yn cael eu cynnwys yn y Papur Gwyrdd.

## Argymhelliad

4. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu cynigion ar gyfer rhoi'r ardreth fusnes leol atodol ar waith ac adolygu'r mecanweithiau ar gyfer ailbrisio eiddo busnesau. Daw cyngor ynghylch mynd i'r afael â'r Papur Gwyrdd maes o law.

## Amseru

5. Disgwylir i'r DETR gyhoeddi'i Bapur Gwyrdd ym mis Gorffennaf, gyda Phapur Gwyn yn cael ei gynhyrchu (fwy na thebyg) ddiwedd y flwyddyn. Efallai y bydd y Papur Gwyn yn cynnwys Mesur drafft neu efallai y bydd y Mesur drafft yn ymddangos yn fuan ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn.

**Cefndir**

Ardreth Fusnes Leol Atodol

6. Pwysleisiodd y Papur Gwyn - *Lleisiau Lleol - Moderneiddio Llywodraeth Leol yng Nghymru* yr angen i adeiladu partneriaethau cryfach a mwy effeithiol rhwng cynghorau a busnesau lleol i wella'r modd y darperir gwasanaethau ac i bennu blaenoriaethau lleol a chynlluniau gwario. Argymhellodd roi pwerau cyfyngedig i gynghorau bennu ardreth leol atodol. Byddai angen i gynghorau wedyn gymryd camau mwy breision i gynnwys y gymuned fusnes yn eu cynlluniau strategol a'u penderfyniadau gwario.

Argymhellodd y Papur Gwyn hefyd fesurau i leihau'r baich ardrethi ar fusnesau bach.

7. Rhagwelir y bydd cyflwyno'r ardreth atodol yn broses dau gam:

- Cam Un - cyn y ddeddfwriaeth. Dylai cynghorau roi trefniadau partneriaeth effeithiol yn eu lle i gynnwys busnesau yn eu gwaith. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau ynghylch y gyllideb flynyddol a byddai hefyd yn cynnwys mewnbwn effeithiol i'r broses cynllunio cymunedol, Gwerth Gorau a'r agenda foderneiddio ehangach.
- Cam Dau- ar ôl y ddeddfwriaeth. Ar yr amod bod y trethdalwyr yn rhoi sêl eu bendith i'r trefniadau cam cyntaf drwy bleidlais, bydd cynghorau'n gallu codi ardreth leol gyfyngedig. Bydd gan fusnesau yr hawl i gymeradwyo'r ffordd y caiff yr arian ychwanegol hwn ei wario.

8. I rwystro cynghorau rhag pennu ardrethi lleol sy'n afresymol o uchel ac i sicrhau fod gan fusnesau rhywfaint o sicrwydd ynghylch lefel eu biliau ardrethi yn y dyfodol, byddai'r ardreth leol yn cael ei chyfyngu gan derfyn canolog a bennir gan y Llywodraeth. Argymhellir y dylai'r terfyn fod yn 1% o'r gyfradd genedlaethol mewn unrhyw un flwyddyn, hyd at uchafswm o 5% dros amser. Yn ôl y ffigurau cyfredol, amcangyfrifir y byddai atodiad o 1% yn codi rhyw £6 miliwn yng Nghymru.

9. Nid yw cynigion y DETR ar gyfer cynllun cymorth ardrethi ar gyfer busnesau yn glir hyd yma, ond awgrymwyd y dylai'r cymorth gael ei dargedu yn bennaf at eiddo sydd â gwerth trethiannol o lai na £6,000 (wedi'i seilio ar ymchwil fod mwyafrif busnesau sydd â throsiant o lai na £100,000 mewn eiddo o'r maint hwn).

10. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer cyflwyno'r ardreth leol atodol a'r cynllun cymorth ardrethi ar gyfer busnesau bach.

Adolygiad Ailbrisio

11. Fis Tachwedd diwethaf, cyhoeddodd Gweinidog Llywodraeth Leol y DETR, Hilary

Armstrong, y byddai adolygiad ailbrisio yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2000. Mae'r grp adolygu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r DETR, Trysorlys ei Mawrhydi, yr Adran Masnach a Diwydiant, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn y Busnesau Bach a'r Cynulliad Cenedlaethol.

12. Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ailbrisio eiddo busnesau bob pum mlynedd. Daeth yr ailbrisiad diwethaf i rym ar 1 Ebrill eleni.

13. Cylch gwaith yr adolygiad yw:

- ystyried sut i wella sicrwydd, sefydlogrwydd a symlrwydd ar gyfer trethdalwyr, cynghorau a llywodraeth ganolog tra'n cynnal lefel briodol o degwch wrth brisio eiddo busnesau
- archwilio'r achos dros newid y cylch ailbrisio bob pum mlynedd bresennol a chyflwyno bandiau prisio
- ystyried sut orau i sicrhau bod gwir werth cyfanswm yr ardrethi sy'n dod i law yn aros yr un fath.

14. Cyfarfu'r grp adolygu ar sawl achlysur, a byddant yn adrodd yn ôl i Weinidogion yn ddiweddarach yn y gwanwyn. Y tebyg yw y bydd yn argymell cadw'r cylch ailbrisio pum mlynedd bresennol, ond bod yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r rhestrau ardrethi newydd a chyhoeddi'r penderfyniadau ar gymorth trosiannol a'r lluosydd yn digwydd ynghynt.

**Ystyriaeth**

15. Mae swyddogion y Cynulliad wedi chware rhan amlwg yn y gwaith hwn a byddwn yn parhau i gydweithio'n glos â'r DETR a'r prif gyfranddeiliaid eraill cyn cyhoeddi'r Papur Gwyrdd.

16. Yn benodol, byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw gynnig cadarn yn gydnaws ag egwyddorion y Cynulliad, gan roi inni'r hyblygrwydd i ddatblygu atebion sydd wedi'u teilwra orau i fodloni anghenion Cymru. Wrth wneud hynny, cawn ein harwain gan y prif egwyddorion ar gyfer adeiladu economi gryfach a gwell a darparu llywodraeth symlach a gwell. Er enghraifft, efallai ein bod am dargedu cymorth ardrethi busnesau bach i fusnesau sydd newydd eu sefydlu i helpu gyrraedd targed 2003 *Gwell Cymru,* o symud gam yn nes at gyfartaledd y Deyrnas Unedig.

17. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y bydd y Papur Gwyrdd yn ymdrin â buddiannau Cymru. Bydd swyddogion y Cynulliad a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn trafod cynigion a dewisiadau polisi ar gyfer trafod â'r DETR yn ystod yr wythnosau nesaf. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yng ngoleuni'r trafodaethau hynny.

**Themâu Trawsbynciol**

18. Yng ngoleuni'r goblygiadau ar gyfer busnesau, mae copi o'r papur hwn yn cael ei anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

**Goblygiadau Ariannol**

19. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn, gan yr ysgwyddir cost y gwaith paratoi o fewn cyllideb costau gweinyddu cyfredol yr Adran Gyllid Llywodraeth Leol. Unwaith y daw manylion mwy cadarn i'r fei, bydd papurau'r pwyllgor yn y dyfodol yn cynnwys amcangyfrif o unrhyw oblygiadau ariannol posibl i'r Cynulliad. Ymgynghorwyd â'r Adran Cynllunio Cyllid ynghylch y papur hwn ac mae'n fodlon â'r agweddau ariannol.

**Cydymffurfio**

20. Mae gan y Cynulliad bwerau o dan Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru a gwneud sylwadau priodol yn ei gylch. Nid oes unrhyw faterion ynghylch priodoldeb na rheoleidd-dra. Mae Swyddfa Gydymffurfio y Cynulliad wedi bwrw golwg ar y papurau hyn ac mae'n fodlon â'r agweddau cydymffurfio.

**Cyswllt**

21. Gwilym Evans, Adran Cyllid Llywodraeth Leol, est. 5013.